15 Gorffennaf 2016

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun nos Lun, 25 GORFFENNAF 2016** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. **CYFLWYNIAD AR WAITH ADFER CLYCHAU A CHLOC EGLWYS SANT PEDR**
   Derbyn cyflwyniad gan Mrs Jennifer Trigger, Cadeirydd Grŵp Adfer Clychau Eglwys Sant Pedr, ynghylch y gwaith cynnal arfaethedig i glychau a chloc yr eglwys.

2. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

3. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgan buddiannau personol a/neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF**
   Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arferol diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mai 2016 yn gywir.

7. **MATERION YN CODI**

8. **PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
   Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2016 (copi gwyrdd).

9. **PWYLLGOR AMWYNDERAU**
   Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2016 (copi melyn).

10. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

(i) Sioe Flodau Rhuthun – derbyn datganiad ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Hydref 2015 fel bo'n ofynnol i gefnogi cais am gymorth ariannol o £500 tuag at gostau'r sioe. Mae £500 yn y gyllideb a chymeradwywyd y cais mewn egwyddor yn amodol ar dderbyn y cyfrifon.

11. ESTYNIAD ARFAETHEDIG MYNWENT LLANRHYDD

Ystyried geiriad drafft gan Gyngor Sir Ddinbych y cytundeb i'w lofnodi gan Gyngor Tref Rhuthun a Chyngor Sir Ddinbych a'r trefniadau i dalu cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at estyniad y fynwent.

12. CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref Rhuthun wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru yn dilyn cyfarfod yr is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg ar 4 Gorffennaf 2016 (copi pinc).

13. PWYLLGOR PWERAU BRYS

Awdurdodi'r Maer a'r Dirprwy Faer i lofnodi sieciau a chymeradwyo ceisiadau cynllunio nad ydynt yn ddadleuol eu natur yn ystod y gwyliau haf. Pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Pwerau Brys ym mis Awst a chytuno ar yr aelodaeth.

14. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Derbyn manylion Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2015/16 – 10 Mlynedd o Weithio i Wella.

15. GOHEBIAETH

i. Cyfle am gyllid grant 'Dathlu eich Cymuned' gan Gronfa Loteri Fawr Cymru.
ii. E-bost ynghylch adroddiad crynodeb yr ymatebion i'r ymgynghoriad at y Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru).
iii. E-bost ynghylch arolwg ar Gyfraddau treth uwch wrth brynu ail gartrefi gan Lywodraeth Cymru.

ynghyd ag unrhyw ohebiaeth arall a dderbyniwyd.

16. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Cyllid Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2016 (copi melyn).

17. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau isod:

906	Cymdeithas Cymuned Llanfwrog	Cyfraniad tuag at arddangosfa tân gwyllt 2016		£1,000.00
907	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Dau ginio yn y Cyfarfod Blynyddol a'r cyfarfod chwarterol, 15.07.16		£30.00
908	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Gorffennaf		£342.60
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu a chopïau isafswm	*	£129.14
909	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£36.66
910	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£29.82
911	Sandra Williams	Cost postio Danfoniad Arbennig Gwarantedig	*	£7.25
912	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
913	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£108.00

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi â * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £50.60)

18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 12 Medi 2016.